**Rhun ap Iorwerth**

Aelod Cynulliad dros
Ynys Môn

Assembly Member for
Ynys Môn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mawrth 24ain 2015

Richard Parry Jones,
Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
LLANGEFNI,
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Richard,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod o gynrychiolwyr Cyngor Tref Amlwch a chynghorau cymuned gogledd yr ynys ddydd Gwener pan drafodwyd y broses sy'n mynd rhagddi i geisio gwerthu safle Shell yn Rhosgoch. Mynegwyd pryder yn y cyfarfod bod y gwerthiant yn digwydd ar amser anffodus, a bod yr amseriad ddim yn caniatáu i bob opsiwn gael eu hystyried.

Y teimlad yn y cyfarfod oedd y dylid sicrhau bod pob opsiwn ar gyfer clymu'r safle i ddatblygiad Wylfa yn cael eu hystyried (e.e. bod Horizon yn cael rhagor o amser i ystyried defnydd y lle fel lleoliad ar gyfer cartrefu gweithwyr dros dro neu fel safle ynghlwm â'r gwaith adeiladu/cadwyn gyflenwi) ac yn benodol y dylid sicrhau digon o amser i ystyried sut allai'r gymuned elwa fwyaf yn yr hir dymor o unrhyw gytundeb.

Gofyn am gyfnod o oedi mae'r cynghorau ac rwy'n deall eu bod yn bwriadu ysgrifennu atoch i wneud y cais hwnnw. Tybed allech chi roi sicrwydd y bydd y cais ar agenda eich cyfarfod nesaf fel Ymddiriedolaeth?

Yn gywir,

**RHUN AP IORWERTH**
Aelod Cynulliad Ynys Môn / Assembly Member for Ynys Môn

ADRAN PRIF WEITHREDWR
25 MAR 2015
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Rhun.apIorwerth@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44(0)29 2089 8270

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Rhun.apIorwerth@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44(0)29 2089 8270